PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Bwlio Cysylltiedig â Thlodi

## Cipolwg gan Blant a Phobl Ifanc ar effaith bwlio cysylltiedig â thlodi:

Daw'r canfyddiadau o Arolwg Tlodi Blynyddol Plant a Theuluoedd 2022

**Nirushan Sudarsan | Tachwedd 2022**



# Bwlio Cysylltiedig â Thlodi

## Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Plant yng Nghymru eu hadroddiad ar ganfyddiadau'r Arolygon Tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol. Defnyddiwyd dyfyniadau o'r prif ganfyddiadau, a dadansoddiad pellach ohonynt, i lywio'r adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ganfyddiadau cysylltiedig â thlodi a bwlio. Yn yr arolwg, bu plant a phobl ifanc yn rhannu eu barn, eu safbwyntiau a'u profiadau o fwlio cysylltiedig â thlodi, ac effaith bosibl hynny ar bob agwedd o'u bywydau.

Gall ymarferwyr, addysgwyr a llunwyr polisi glywed y lleisiau hyn a chymryd camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag hyn, ac yn gallu gwireddu eu hawliau.

## Pwy ymatebodd

Mae'n bwysig nodi nad oedd dosbarthiad yr arolwg yn mynd ati'n benodol i dargedu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a/neu ardaloedd difreintiedig, ac nad oedd yr arolwg yn gofyn i'r plant a'r bobl ifanc oeddent hwy eu hunain yn byw mewn tlodi. Yn hytrach, roedd yr arolwg yn ceisio'u barn ar sut gallai tlodi effeithio ar wahanol agweddau ar fywydau plant. O ystyried y paramedrau hyn, nid yw'n hysbys, felly, faint o'r ymatebwyr sydd â phrofiadau bywyd o dlodi, neu sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.


Ymatebodd cyfanswm o 250 o blant a phobl ifanc o 19 o ardaloedd Awdurdod Lleol ar draws Cymru. Roedd eu hoed yn amrywio o lai na 10 mlwydd oed hyd at 25 oed.

# CANFYDDIADAU

Mae canfyddiadau'r arolwg yn amlygu effaith eang tlodi ar blant a phobl ifanc, ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith emosiynol, gymdeithasol a meddyliol yr oedd plant a phobl ifanc yn ei chysylltu â bwlio cysylltiedig â thlodi.

Yn yr argyfwng costau byw ac economaidd presennol, pan fo llawer o deuluoedd yn profi canlyniadau tlodi, sy'n aml yn drychinebus, maent wedi cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau amhosibl ynghylch bwyd neu wres, prynu dillad, esgidiau ac offer i'r ysgol. Mae hynny ar ben pobl ifanc mewn cymunedau sy'n cael eu hatal rhag treulio amser o safon gyda'u ffrindiau a'u teulu mewn gweithgareddau sydd wedi dod yn rhywbeth ychwanegol, moethus i lawer. Mae hynny'n aml yn golygu bod llawer o blant yn gorfod delio â chael eu hynysu'n gymdeithasol, sydd yn ychwanegu at yr amgylchedd o straen a phryder yn yr ysgol ac yn gyffredinol.

O gymharu'r canlyniadau â'r flwyddyn flaenorol, mae rhai nodweddion tebyg yn y data a'r ymatebion, ond mae gwahaniaethau penodol yn yr agwedd gymdeithasol ar dlodi a bwlio. Mae ofn ynghylch bod heb ddigon o arian i dreulio amser gyda ffrindiau, ond hefyd yn yr ymatebion, ceir cyfeiriad gan nifer o bobl ifanc fod bwlio ddim yn digwydd oherwydd bod holl gymuned yr ysgol yn "dlawd". Er enghraifft, mae sylwadau am beidio ag wynebu bwlio oherwydd bod "pawb ohonon ni'n dlawd", ac efallai mai'r rheswm am hynny yw'r hinsawdd economaidd presennol, lle mae llawer o deuluoedd yn cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd, ond hefyd gallai gyfeirio at ddealltwriaeth pobl ifanc bod hyn yn effeithio ar lawer o blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd.




***"Llai o gyfleoedd (methu ymuno â chlybiau etc), iechyd gwaelach oherwydd bwyd a thai gwael, sy'n arwain at absenoldeb o'r ysgol, gallai gwneud ffrindiau a dewis hobïau fod yn anodd, gallai troseddu edrych yn fwy deniadol."*** (14-16oed)

Roedd nifer o ymatebion gan blant a phobl ifanc yn cysylltu llai o gyfleoedd i gymdeithasu, ymuno â chlybiau a dewis hobïau â gwneud iddyn nhw deimlo'n isel, yn ansicr ac yn orbryderus.

***"Bod heb ddigon o arian i fynd allan gyda ffrindiau, i'r sinema neu i'r dref, er enghraifft; Bod heb ddigon o arian i dalu am bethau fel gwyliau, neu gyfrifiadur neu drenyrs neis; Pryderu am arian trwy'r amser."*** (14-16oed)


Mae'r adroddiad yma'n nodi 3 adran sy'n dangos sut gall tlodi a bwlio effeithio ar wahanol amgylcheddau ac amgylchiadau, sef yr ysgol; y cartref; ac allan yn y gymuned.

Mae'r canfyddiadau'n cynnwys dyfyniadau gan blant a phobl ifanc. Er bod llawer o'r rhain yn anghyfforddus i'w darllen, maent wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad serch hynny. Nid bwriad hynny yw achosi sioc neu gyffro dramatig, ond yn hytrach ddarparu gwell dealltwriaeth o effeithiau tlodi a bwlio ar lawer o'r miloedd o blant a phobl ifanc sy'n byw'r realiti yma yn feunyddiol.

# Yr Ysgol, Tlodi a Bwlio

Gofynnodd yr arolwg i blant a phobl ifanc 'Yn yr ysgol, beth ydych chi'n meddwl fyddai'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi?' Rhoddwyd cyfle iddyn nhw ymhelaethu ar hyn ac archwilio'r rhesymau pam roedden nhw wedi dewis pob opsiwn.

Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc ddewis 2 opsiwn o'r rhestr isod.




At ei gilydd, gwnaeth 85% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd sylw ynghylch bwlio cysylltiedig â thlodi yn yr ysgol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yr opsiwn a ddewiswyd amlaf oedd *'cael eu bwlio neu bobl yn edrych i lawr arnyn nhw'*. Fodd bynnag, mewn meysydd eraill bu newidiadau sylweddol yn yr atebion a ddewiswyd amlaf gan blant a phobl ifanc.

Ni ellir dadansoddi'r rheswm am hyn ar sail paramedrau'r data a gasglwyd yn yr arolwg hwn yn unig. Er enghraifft, dydyn ni ddim yn gwybod beth oedd cefndir sosio-economaidd y rhai a ymatebodd, pa ysgolion maen nhw'n mynd iddynt, na'u profiadau bywyd o dlodi.

Ymhlith rhai ystyriaethau posibl wrth feddwl am yr amrywiadau, gallai fod: gostyngiad yn nifer y tripiau ysgol sy'n cael eu trefnu wedi'r pandemig, ac felly llai o bwysigrwydd yn cael ei roi iddyn nhw; cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, neu hynny'n cael ei dderbyn yn fwy oherwydd sylw yn y cyfryngau ac ymgyrchu. Beth bynnag yw'r rhesymau, mae'r prif anawsterau yng nghyswllt bwlio, gwisg ysgol a bwyd yn dal yn gyson.

Ymateb y plant a'r bobl ifanc oedd fod tlodi yn yr ysgol yn golygu eu bod yn methu cael yr offer cywir, 'esgidiau ysgol da', neu wisg ysgol, a'u bod yn methu mynd ar dripiau ysgol. Roedd hynny'n gwneud i bobl ifanc deimlo'n ynysig, yn bryderus am eu dillad, ac weithiau'n teimlo'n isel yn amgylchedd yr ysgol, fel eu bod yn hunan-ymwybodol iawn, gydag effaith ar eu hiechyd meddwl.

***"Negyddol, oherwydd does ganddyn nhw ddim y wisg gywir nag offer o gymharu ag eraill, felly maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu gadael allan a'u bod yn wahanol."*** (14-16oed)

***"Mae prinder arian yn golygu eu bod yn methu cael yr un manteision fel gwerslyfrau neu offer eu cyfoedion, a gall hynny achosi bwlch addysg sydd tu hwnt i'w rheolaeth."*** (10-13oed)

Gwnaed nifer o sylwadau am hyn gan bobl ifanc, ac roedd yn ymddangos yn thema gyson mewn gwahanol grwpiau oed, o rai dan 10 i rai 17-18 oed; roedd yn destun pryder i lawer o bobl ifanc.

***"Falle bod nhw'n edrych yn wahanol oherwydd bod ganddyn nhw ddim digon o arian i brynu dillad newydd, cotiau a sgidiau, weithiau dyw eu dillad ddim yn ffitio'n iawn, ac maen nhw'n teimlo'n hunan-ymwybodol ac yn poeni bydd plant eraill yn pigo arnyn nhw a bod yn gas."*** (O dan 10)


O ganlyniad i'r achosion hyn, roedd tuedd i blant a phobl ifanc ymateb ynghylch effaith hyn ar eu hiechyd meddwl, gan nodi'n arbennig sut mae'n creu diffyg hunan-barch, gorbryder parhaus, ac iselder. Soniodd rhai pobl ifanc hefyd sut gall hyn effeithio ar eu dysgu yn yr ysgol. Cafwyd sylwadau ar sut roedden nhw eisiau cyfle cyfartal i ddysgu a chael mynediad at adnoddau ysgol ehangach. Canlyniadau methu â dysgu oedd galw enwau arnyn nhw, a phobl yn gwneud hwyl am eu pennau oherwydd eu bod nhw ddim yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

***"Mae'n effeithio arnyn nhw oherwydd eu bod nhw'n methu cael cinio ysgol neu fyrbryd, ac maen nhw'n cael eu bwlio am fod mewn tlodi."*** (10-13oed)

Un o'r ychydig wahaniaethau rhwng y grwpiau oed o ran ymatebion oedd bod mwy yn y grŵp oed 10-13 yn tueddu i sôn mwy am y ffaith eu bod nhw ddim yn cael brecwast na chinio ysgol, ac yn gwneud pwyntiau penodol am fethu prynu byrbryd. Roedd hynny'n golygu bod rhai yn llwglyd.

# Y Cartref, Tlodi a Bwlio

Bu'r ymatebwyr yn ystyried beth roedden nhw'n meddwl fyddai'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi pan fyddan nhw gartref. Eto, roedd fformat y cwestiwn yn gofyn i'r ymatebwyr ddewis 2 beth o'r rhestr a ddarparwyd.




Cynhyrchodd y canlyniadau ymatebion ynghylch 'diogelwch' neu 'sicrwydd cartref' i blant a phobl ifanc. Er ei bod yn anodd dod i gasgliadau pendant yn sgîl yr amrywiaeth o ymatebion i fwlio, cafwyd ymatebion gan lawer o bobl ifanc ynghylch 'teimlo embaras' neu 'gysylltiadau gwael', oedd yn arwain at berthnasoedd gwaelach, ac o bosib, fwlio oedd yn gwaethygu.

***"Methu gwneud gwaith cartref. Methu cael ffrindiau draw."*** (O dan 10)

***"Falle byddan nhw'n gwneud jôcs am eu bywyd gartref i guddio embaras am sut gallai edrych i blant eraill."*** (14-16oed)

Gwnaeth plant a phobl ifanc sylwadau yn aml am deimlo embaras ynghylch amgylchedd eu cartref a'u bod ddim eisiau, neu ddim yn gallu gwahodd ffrindiau draw. Mae ymateb trwy 'wneud jôcs' neu 'ofni' gwahodd neb draw yn dangos y gallai plant a phobl ifanc fod yn pryderu bydd eraill yn gwneud hwyl am eu pennau, tra soniodd eraill am fod heb eitemau 'designer' neu olwg cyffredinol y tŷ. Eto, fe sonion nhw am sut mae hynny'n arwain at fwy o bryder, poeni'n barhaus, a theimlo'n fwy 'isel'.

***"Mae cysylltiad gwael â'r rhyngrwyd yn torri eu cysylltiad â'u ffrindiau ac yn eu hatal rhag gallu ategu'r dysgu yn yr ysgol."*** (14-16oed)

***"Falle bod nhw'n teimlo embaras i wahodd ffrindiau draw, neu'n pryderu, os byddan nhw'n colli arian, y gallai fod rhaid iddyn nhw symud o ble maen nhw'n byw nawr."*** (10-13oed)


Mae'n amlwg o'r sylwadau, y profiadau a'r safbwyntiau a gafwyd gan blant a phobl ifanc bod tlodi'n effeithio ar bob agwedd o'u bywydau. Mae hynny'n anochel yn golygu bod plant yn pryderu am fwlio, sydd yn ei dro'n effeithio ar eu hiechyd meddwl.

## Y Gymuned, Tlodi a Bwlio

Hwn oedd y cwestiwn olaf ynghylch effaith tlodi ar draws gwahanol amgylcheddau, ac eto, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc ddewis 2 o'r opsiynau a welir isod.

Fel mae'r siart yn dangos, dywedodd 75% o'r plant a'r bobl ifanc mai byw rhywle lle doedden nhw ddim yn teimlo'n ddiogel i fynd allan fyddai'r peth mwyaf tebygol o effeithio ar y rhai oedd yn profi tlodi.

***"Allan yn y gymuned, beth ych chi'n meddwl fyddai'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi?"***




***"Negyddol os ydyn nhw allan gyda ffrindiau sy'n mynd i'r siop achos bod y plentyn sydd mewn tlodi'n methu prynu unrhyw beth (sychedig oherwydd eu bod yn methu prynu diod fel eu ffrindiau."*** (14-16oed)

Yn achos plant a phobl ifanc, roedd bwlio yn y gymuned yn codi tair prif thema o'r ymatebion. Yn gyntaf, roedd llawer o'r sylwadau'n ymwneud â methu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu fforddio 'bwyd, diodydd, teganau' etc pan fydden nhw'n mynd allan gyda'u ffrindiau. Roedd hyn yn codi'n aml ac yn amlygu'r pryder a'r ynysu mae pobl ifanc yn ei deimlo oherwydd eu bod yn cael eu heithrio'n ariannol rhag treulio amser gyda'u ffrindiau. O ganlyniad, roedden nhw'n pryderu y byddai pobl yn gwneud hwyl am eu pennau oherwydd eu bod nhw 'ddim yn mynd allan', neu oherwydd eu bod yn methu prynu pethau pan fydden nhw allan.

***"Does ganddyn nhw ddim arian i gymryd rhan mewn pethau sydd ar gael i blant mwy cefnog."***
(10-13oed)

***"Mae diffyg trafnidiaeth addas yn golygu methiant i symud o gwmpas, sydd hefyd yn gallu effeithio ar argaeledd i bobl ifanc. Efallai bydd rhai pobl yn edrych i lawr arnyn nhw neu'n eu stigmateiddio."*** (17-18oed)


Yn ail, cafodd problem trafnidiaeth ei chodi gan nifer o bobl ifanc. Roedd yr ymatebion yn amrywio o fethu mynd unrhyw le gyda ffrindiau, gorfod cerdded i bobman a phryderu bod eraill yn 'edrych lawr arnyn nhw'. Mae hyn yn cysylltu â'r thema gyffredinol, sef sut roedd tlodi'n creu pryder ac yn ynysu pobl ifanc ymhellach yn gymdeithasol yn eu cymunedau.

***"Ofn cael eu barnu, pryder ynghylch mynd o A i B, gorfod cerdded i bobman, methu cymryd rhan mewn gweithgareddau."*** (17-18oed)

Yn olaf, gwnaeth plant a phobl ifanc sylwadau am ofni mynd allan oherwydd y gallai pobl wneud hwyl am eu pennau neu eu barnu oherwydd bod ganddyn nhw ddim y dillad diweddaraf. Mae'r rhain i gyd yn ategu sut mae tlodi'n effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc ac yn cynyddu teimladau o orbryder, ynysu, diffyg hunan-barch a hyder.

***"Byddan nhw'n cael eu bwlio a bydd pobl yn gwneud hwyl am eu pennau oherwydd y dillad."*** (10-13oed)

# Diweddglo ac Argymhellion





Doedd arolwg y llynedd ddim yn holi'n benodol ynghylch bwlio cysylltiedig â thlodi, ond gwnaeth y plant a'r bobl ifanc sylwadau am hynny mor aml fel ein bod wedi cynnwys cwestiynau ar y mater yma eleni.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (40%) eu bod nhw ddim yn gweld plant a phobl ifanc yn cael eu bwlio oherwydd tlodi. Er bod hyn yn galonogol, roedd eu sylwadau'n rhoi mwy o bersbectif. Er enghraifft, dywedodd nifer o ymatebwyr oedd wedi dewis 'na' fel ateb fod eu hysgol yn rhy fach; roedd pawb yn eu hysgol yn cael mynediad at gyfleoedd; dydyn nhw yn bersonol ddim yn *"ymwneud â bwlis";* neu bod bwlio ddim yn digwydd yn eu hysgol.
Gellid rhagdybio, lle nad yw bwlio cysylltiedig â thlodi yn digwydd yn yr ysgol, mai un rheswm posibl yw bod lefel y tlodi yn yr ysgol neu'r dalgylch dan sylw yn gyfyngedig. Fodd bynnag, byddai'r sylw a wnaed gan un o'r bobl ifanc hyn yn awgrymu fel arall. Pan holwyd oedden nhw'n gweld plant yn cael eu bwlio oherwydd tlodi, eu hymateb oedd:

***"Na, rydyn ni i gyd yn dlawd"*** (10-13 oed)

Holwyd yr ymatebwyr pa effaith byddai bwlio cysylltiedig â thlodi yn ei chael ar blant a phobl ifanc a sut gallai wneud iddyn nhw deimlo. Dyma'r geiriau ddefnyddion nhw amlaf.




I gloi, mae byw mewn tlodi yn debygol o gynyddu'r achosion o fwlio a'u dyfnder. Mae hyn yn wir nid yn unig yn amgylchedd yr ysgol, ond hefyd y tu allan. Mae ofn bwlio cysylltiedig â thlodi, p'un a yw'n ganfyddedig neu'n wirioneddol, yn bendant yn cael effaith ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Maen nhw'n fwyfwy pryderus ynghylch hyn, ac i lawer, mae'n digwydd nid yn unig yn amgylchedd yr ysgol, ond yn eu cymunedau a'u rhwydweithiau cymdeithasol yn ogystal. Gall yr ofn yma arwain at ynysu ym mhob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc.

Yn eu hymatebion i'r arolwg, mae plant a phobl ifanc yn credu bod tlodi a bwlio cysylltiedig â thlodi ddim yn deg. Fe wnaethon nhw leisio'u barn ar beth sydd angen newid, gan gynnwys codi cyflogau rhieni; *"gwylio"* plant yn fanylach a rhoi cefnogaeth os bydd angen; *"gwahardd"* diwrnodau heb wisg ysgol; a gwersi ar gyllidebu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn deall gwerth arian. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen am gynyddu ymwybyddiaeth, newid agweddau, dangos parch, a bod gwisgoedd ysgol yn cael eu darparu.

# Argymhellion gan Blant a Phobl Ifanc

- *"Cadw llygad manwl ar y bobl ifanc, a gwneud yn siŵr eu bod nhw bob amser yn iawn, ac os nad ydyn nhw, eu bod nhw'n cael y gefnogaeth gywir*." (14-16oed)
- *"Addysgu plant mewn ysgolion a threfnu bod y plant/rhieni sy'n gallu gwneud cyfraniad yn dod â hynny i'r ysgol, ac yn sicrhau ei fod ar gael i'r teuluoedd sydd angen hynny yn yr ysgol."* (14-16oed)
- *"Hybu tosturi a sicrhau bod gwisg ysgol, neu ostyngiad o leiaf, yn cael ei ddarparu i blant sy'n wynebu tlodi."* (14-16oed)
- *"Fel talebau bwyd, ond talebau sgidiau, fel bod pawb yn gallu cael sgidiau newydd sy'n ffitio bob blwyddyn, wrth symud i fyny i'r dosbarth nesaf. Yna byddai gan bawb sgidiau sgleiniog, a fyddai neb yn wahanol."* (14-16oed)
- *"Rwy'n meddwl dylai plant gael eu haddysgu am hyn ac am effaith bosibl tlodi o oed ifanc. Rwy'n credu bydd hynny'n arwain atyn nhw'n bod yn fwy meddwl agored yn y dyfodol, sy'n gallu stopio neu gyfyngu ar fwlio."* (10-13oed)
- *"Siarad mwy am dlodi plant mewn gwersi ABCh, gwneud pobl yn ymwybodol o sut mae'n teimlo."* (14-16oed)
- *"Helpu i ddarparu arian ar gyfer tripiau ysgol i'r myfyrwyr hyn*." (14-16oed)
- *"Creu cynlluniau gwersi neu sesiynau y tu allan i'r ysgol ar ddeall tlodi/ei effeithiau i feithrin tosturi."* (14-16oed)
- *"Opsiynau ar gyfer grantiau ar gyfer cyfarpar ysgol a gwisg ysgol. Prosiectau sy'n ariannu tripiau/teithiau cymdeithasol am ddim, fel bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan, a lwfans mewn ysgolion i roi cymorth ariannol i'r rhai sy'n methu fforddio tripiau ysgol. Cefnogaeth yn yr ysgol fel cwnsela neu weithwyr cymorth ar gyfer y rhai sy'n cael eu bwlio neu sy'n anhapus am resymau cysylltiedig â phroblemau ariannol e.e. teimlo eu bod yn cael eu gadael allan neu'n colli tripiau, yn colli ffrindiau, neu'n teimlo'n ynysig."* (17-18oed)

# Diolchiadau

Hoffai Plant yng Nghymru ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr yr wybodaeth maen nhw wedi'i rhannu.

Hoffai Plant yng Nghymru hefyd fynegi eu diolchgarwch i **Nirushan Sudarsan**, awdur yr adroddiad hwn a pherson ifanc sy'n intern gwirfoddol yn Plant yng Nghymru.

Tachwedd 2022
Golygydd yr adroddiad: Karen McFarlane, Plant yng Nghymru